Staff chwaraegar

Cyflwyniad

Mae addysgeg chwarae ym myd natur yn ymwneud â chysylltu ymarfer awyr agored chwaraegar pob dydd â theori addysgol sydd wedi ennill ei phlwyf. Mae'n ffordd o integreiddio profiadau chwarae plant â byd natur.



Ffocws ar chwarae ym myd natur

Yr oedolyn yn gyd-archwiliwr yn hytrach nag yn hyfforddwr. Mae staff chwaraegar yn gweld y posibiliadau sydd ym myd natur. Mae'n golygu ymgysylltu â byd natur yn hytrach na'i osgoi. Cymryd risgiau bach, helpu plant i ddringo, goruchwylio dulliau diogel o ddefnyddio offer, annog plant i ddatrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn, a helpu plant i reoleiddio eu hemosiynau drwy brofiadau synhwyraidd naturiol. Mae staff chwaraegar yn gydarchwilwyr yn hytrach nag yn hyfforddwyr i'r plant.

Mae addysgeg chwarae ym myd natur yn ymwneud â phresenoldeb, byd natur a chwarae.

"Staff presennol yw staff sy'n dra ymwybodol…gofalwr sy'n hollbresennol, yn gorfforol ac yn feddyliol, sydd â gafael weithredol ar y man dan sylw, sy'n parchu'r plant, sy'n effro ac sy'n barod i ymateb os oes angen" [Cyfieithiad]

Sue Palmer – Play is the Way

Mae staff chwaraegar:

- yn mwynhau bod gyda'r plant ym myd natur, yn weithredol ac yn wirioneddol.
- yn ymateb i syniadau ac anghenion y plant yn hytrach na'u cyfarwyddo.
- yn sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn teimlo'n llawn cyffro i fynd i archwilio.

Friedrich Froebel: Roedd Friedrich Froebel yn credu mai chwarae yw'r mynegiant eithaf o ddysgu, a bod datblygiad ystyrlon yn digwydd pan fydd plant yn rhydd i archwilio, creu a darganfod drwy chwarae. Roedd o'r farn bod byd natur yn amgylchedd hanfodol ar gyfer twf plant, oherwydd ei fod yn cynnig profiadau synhwyraidd, cyfoethog a chyfleoedd ar gyfer chwilfrydedd a'r dychymyg. Yn y dull hwn o weithredu, mae oedolion yn dywyswyr gofalus yn hytrach nag yn gyfarwyddwyr, ac maent yn hybu archwilio a arweinir gan blant yn hytrach na'u bod yn ei reoli. Mae defnyddio deunyddiau naturiol megis brigau, cerrig, dail a dŵr yn adlewyrchu athroniaeth Froebel bod plant yn dysgu orau drwy ymgysylltu'n ymarferol ag eitemau go iawn ym myd natur.

Roedd Rudolf Steiner: Roedd Rudolf Steiner yn pwysleisio pwysigrwyddymwybyddiaeth dymhorol, rhythmaunaturiol a defnyddio deunyddiau syml, penagored o fyd natur. Roedd yn credu bod plant ifanc yn ffynnu mewn amgylcheddau hamddenol y mae modd eu rhagweld ac sydd â chysylltiad agos â byd natur. Un o brif elfennau dull gweithredu Steiner yw presenoldeb oedolyn digynnwrf, pwyllog sy'n esiampl o ofal, creadigrwydd a pharch at yr amgylchedd. Yn yr awyrgylch cefnogol hwn, mae chwarae dychmygus plant yn ffynnu, sy'n eu helpu i greu cysylltiad dwfn a pharhaol â byd natur.

Roedd Lev Vygotsky: Roedd Lev Vygotsky yn tynnu sylw at bwysigrwydd oedolion a phlant fel cyd-grëwyr dysgu, lle mae gwybodaeth yn datblygu drwy ryngweithio, archwilio cyffredin, a sgwrs ystyrlon. Roedd yn pwysleisio y dylai oedolion hybu ac ymestyn ffyrdd plant o feddwl heb reoli eu chwarae na'u syniadau. Drwy arweiniad sensitif, cwestiynau, a sgwrs chwaraegar, mae oedolion yn helpu plant i symud y tu hwnt i'r hyn y gallant ei wneud ar eu pen eu hunain. Mae'r dull gweithredu cydweithredol hwn yn hybu datblygu sgiliau iaith, datrys problemau, a meddwl ar lefel uwch mewn amgylcheddau dysgu chwaraegar.

Staff chwaraegar

Datblygu ymddygiad

Mae hybu a datblygu ymddygiad chwaraegar gyda staff ym myd natur yn ymwneud â helpu oedolion i deimlo'n hyderus, yn bresennol ac yn ymatebol, drwy fod yn rhan o chwilfrydedd plant.



Iaith ac arddull

Gall chwarae sy'n golygu cymryd risg wneud i oedolion deimlo'n orbryderus, oherwydd bod y risgiau canfyddedig yn aml yn teimlo'n fwy o faint na'r risgiau go iawn. Wrth chwarae yn yr awyr agored, mae'n bosibl y bydd oedolion yn meddwl bod rhywbeth yn fwy peryglus nag y mae, er bod y profiadau hynny'n hanfodol i hyder plant, eu cymhwysedd. a'u gallu i gymryd risgiau'n ddiogel.

Mae cyd-fyfyrio am risgiau gwirioneddol a chanfyddedig, ac am sut y caiff chwarae sy'n golygu cymryd risg ei annog a'i reoli, yn hanfodol i ddatblygu staff chwaraegar sy'n hyderus.

Rhyngweithio gan staff chwaraegar

Addaswch eich iaith:
Yn lle dweud *"Byddwch yn ofalus!"*, dywedwch *"Allwch chi weld y gangen yna?"*, *"Sylwch mor llithrig yw hi"* neu *"Beth yw eich cynllun chi?"*.

Canolbwyntiwch ar y manteision:
Newidiwch o geisio atal damweiniau i reoli risgiau a mwynhau manteision o ran datblygiad.

Dangos sut mae cymryd risgiau:
Gall sefyllfaoedd lle mae oedolion yn cymryd eu risgiau bach eu hunain o flaen y plant feithrin ymddiriedaeth.

"Po fwyaf o risgiau yr ydych yn gadael i blant eu cymryd, y gorau y byddant yn dysgu gofalu amdanynt eu hunain' [Cyfieithiad]

Roald Dahl

Y manteision

Mae cynorthwyo staff i ddatblygu sgwrs chwaraegar yn yr awyr agored yn dechrau drwy roi cyfleoedd iddynt arafu, sylwi ar yr amgylchedd, ac ailgysylltu â'u hymdeimlad eu hunain o chwilfrydedd. Pan fydd oedolion yn teimlo'n hyddysg ac yn agored, bydd eu rhyngweithio â phlant yn mynd yn fwy cyfoethog, yn fwy ymatebol ac yn fwy dychmygus.

Dylai sgwrs chwaraegar fod yn benagored ac yn chwilfrydig, a bod wedi'i gwreiddio mewn awydd i gyd-archwilio.

Mae ymarferion cyfnewid iaith yn helpu staff i fod yn fwy ymwybodol o'r geiriau y maent yn eu defnyddio yn yr awyr agored, ac i archwilio ymadroddion amgen sy'n well o safbwynt hybu chwilfrydedd, chwaraegarwch, ac archwilio a arweinir gan blant. Mae'r ymarferion hyn yn annog y staff i symud o iaith gyfarwyddol i iaith agored, wahoddiadol ac archwiliol, sef y math o iaith sy'n meithrin meddwl a dychymyg plant.

- Defnyddiwch wahoddiadau chwaraegar yn lle ymadroddion cyfarwyddiadol
- Defnyddiwch gwestiynau agored, chwilfrydig yn lle rhai caeëdig
- Defnyddiwch bromptiau a arweinir gan blant yn lle cyfarwyddiadau a arweinir gan oedolion

Mae defnyddio iaith agored, chwilfrydig—"I ble mae'r llwybr hwn yn mynd, tybed?", "Tybed faint o frigau fyddai eu hangen arnon ni i adeiladu hwn?"—yn helpu staff i ymarfer sgwrs sy'n gwahodd plant i feddwl yn lle sgwrs sy'n eu cyfarwyddo.





Dathlu meddwl yn chwaraegar

Dylech gydnabod a dathlu adegau pan lwyddodd y staff i gymryd risgiau, canlyn chwilfrydedd, neu gymryd rhan mewn sgwrs ddychmygus. Mae hynny'n creu diwylliant lle mae chwaraegarwch yn cael ei werthfawrogi, a lle nad yw'n cael ei ystyried yn rhywbeth gwirion. Defnyddiwch luniau, adborth gan y plant, ac arddangosfeydd yn ystod hyfforddiant i staff fel ffordd o ymgorffori arfer da ar draws y lleoliad.

Staff chwaraegar

Pryfociadau

Mae pryfociadau gan staff chwaraegar yn hybu chwarae cyfoethog ym myd natur. Plant sy'n dal i arwain y chwarae, ond gall rhyngweithio meddylgar gan oedolion danio chwilfrydedd, ymestyn y meddwl, a gwahodd plant i archwilio deunyddiau, syniadau a phosibiliadau'n ddyfnach.



Pryfociad yw gwahoddiad i feddwl, archwilio a darganfod. Mewn ymarfer ym maes plentyndod cynnar, mae'r term yn disgrifio sefyllfa, cwestiwn neu ychwanegiad at yr amgylchedd sy'n fwriadol ac sy'n annog y plant i ymgysylltu'n ddyfnach â'u chwarae.Mewn cyd-destun sy'n ymwneud â chwarae ym myd natur, mae pryfociadau'n aml yn defnyddio darnau rhydd naturiol megis brigau, cerrig, dail, dŵr, tywod neu fwd. Mae'r deunyddiau hyn yn rhai penagored y gellir eu haddasu, sy'n golygu y gall plant eu defnyddio mewn llawer o wahanol ffyrdd. Yn wahanol i deganau sefydlog sydd â phwrpas clir, mae deunyddiau naturiol yn galluogi plant i ddyfeisio, adeiladu, cyfuno, trawsnewid, a dychmygu'n rhydd. Nid tywys plant i gyfeiriad un deilliant cywir yw'r bwriad. Yn hytrach, mae pryfociadau'n gwahodd y plant i ddehongli deunyddiau yn eu ffordd eu hunain, ac yn creu lle i fod yn greadigol, datrys problemau a chydweithio.

Gallai pryfociadau gynnwys y canlynol:

- casgliad o frigau o wahanol faint wedi'u gosod wrth ymyl nant fas.
- moch coed a dail wedi'u trefnu mewn patrwm troellog ar y ddaear.
- chwyddwydr wedi'i osod wrth ymyl rhisgl coed neu bryfed.
- cratiau neu foncyffion gwag wedi'u gosod i greu her cadw cydbwysedd.
- bwcedi a chynwysyddion wrth ymyl pwll ar ôl glaw.

Rôl yr oedolyn

Mewn amgylcheddau chwarae ym myd natur, mae oedolion yn arsylwyr, yn hwyluswyr ac yn gyd-archwilwyr. Mae'r dull hwn o weithredu'n adlewyrchu ymchwil sy'n dangos bod dysgu'n aml ar ei gryfaf pan fydd oedolion yn ymestyn meddyliau'r plant heb reoli eu chwarae. Gall staff hybu pryfociadau chwaraegar drwy:

Arsylwi'n gyntaf

Neilltuwch amser i wylio sut y mae'r plant yn defnyddio'r amgylchedd a'r deunyddiau. Mae arsylwi'n helpu oedolion i ddeall diddordebau plant, yr hyn sy'n eu cymell a'r hyn y maent wrthi'n ei ddysgu.

Ychwanegu gwahoddiadau syml

Gall newidiadau bach i'r amgylchedd danio syniadau newydd. Gall ychwanegu basgedaid o gregyn wrth ymyl dŵr, neu osod cerrig wrth ymyl cegin fwd, annog plant i gyfuno deunyddiau mewn ffyrdd newydd.

Defnyddio iaith chwilfrydig

Yn lle cyfarwyddo plant, gall oedolion ddefnyddio iaith chwilfrydig megis:
Tybed beth fyddai'n digwydd pe bai…? Beth sy'n arbennig am y cerrig hyn? Sut y gallen ni wneud hwn yn gryfach?

Anogwch y staff i:
Feddwl a gofyn tybed yn uchel.
Defnyddio iaith ddisgrifiadol.
Cyflwyno geirfa gyfoethog a chwestiynau a meddyliau ar lefel uwch.





Gan fod amgylcheddau naturiol yn newid yn gyson, gall pryfociadau esblygu drwy gydol y flwyddyn. Gallai dail yn ystod yr hydref ysbrydoli plant i greu patrymau, gallai llwydrew yn ystod y gaeaf eu hannog i ymchwilio i iâ, a gallai tyfiant yn ystod y gwanwyn ddeffro diddordeb mewn pryfed, blodau a bywyd newydd.

Staff chwaraegar
Amgylcheddau

Mae cyd-ddylunio mannau chwaraegar yn golygu gwahodd syniadau, ymddygiad a diddordebau'r plant er mwyn llunio'r amgylchedd gyda chymorth oedolyn.



Iaith ac arddull

Bydd arsylwi ymddygiad naturiol plant a gwrando ar eu syniadau'n dangos i'r staff beth sydd ei angen ar y plant a beth y maent am ei wneud yn eu man awyr agored.

Mae llyfrau llawr yn galluogi'r staff i ymgynghori'n fanwl â'r plant yn ystod y broses gynllunio a chofnodi.

Yn ôl Claire Warden o Mindstretcher, mae'r dull llyfr llawr o weithredu'n ddull o gofnodi a chynllunio a arweinir gan y plant, sy'n seiliedig ar ymholi ac sy'n gwahodd y plant i lunio eu siwrnai ddysgu eu hunain

Dylai staff chwaraegar ddefnyddio diddordebau'r plant fel ysgogiadau dylunio:

- yn llusgo brigau - efallai eu bod am gael deunyddiau adeiladu
- yn dringo - efallai fod arnynt angen uchder, her neu fannau sy'n cynnig golygfeydd da
- yn casglu - efallai fod arnynt angen basgedi, silffoedd neu fannau ar gyfer trysor
- yn cloddio - efallai fod arnynt angen pridd, offer a thir

Gall staff chwaraegar lunio'r amgylchedd i gefnogi'r chwiwiau hyn yn ddiogel ac yn greadigol.

Myfyrdodau

Bydd plant, yn naturiol, yn chwilio am safbwyntiau a phrofiadau sy'n ennyn eu diddordeb ac sy'n eu hysbrydoli. Weithiau, gall y chwilfrydedd hwnnw arwain at fathau ymddygiad y mae o oedolion yn teimlo eu bod yn heriol. Yn lle ystyried yr adegau hynny'n broblemau, mae'n bwysig cydnabod eu bod yn arwyddion bod y plant yn ymchwilio ac yn archwilio. Drwy ddefnyddio'r mathau hyn o ymddygiad i daflu goleuni ar bethau, gallwn ddylunio mannau chwaraegar sy'n ymateb i ddiddordebau'r plant ac sy'n hybu eu hawydd naturiol i ddarganfod.

Mae angen i staff chwaraegar neilltuo amser i fyfyrio gyda'r plant am beth sy'n gweithio.

Gofynnwch i'r plant:

Beth rydych yn ei hoffi am y man hwn?
Beth byddech chi'n ei newid?
Beth arall gallen ni ei ychwanegu?





Bydd staff chwaraegar yn dathlu'r man fel rhywle a grëwyd ar y cyd.

Arddangoswch luniau, darluniau neu straeon sy'n dangos sut y mae'r man awyr agored wedi esblygu. Bydd hynny'n meithrin perchnogaeth a balchder ymhlith y staff a'r plant.

Staff chwaraegar

Y tywydd

Mae profi'r tywydd yn agwedd hynod o bwerus ar chwarae yn yr awyr agored. Fodd bynnag, gellir ystyried yn aml bod y tywydd yn broblem neu'n berygl, sy'n peri i oedolion ei osgoi yn hytrach na'i archwilio. Eto i gyd, mae'r adegau hyn a ysgogir gan y tywydd yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i feithrin chwilfrydedd, darganfod, a dysgu mewn modd chwaraegar.



Waeth beth fo'r tywydd…

Dylai elfennau naturiol – gwynt, glaw, haul ac unrhyw dywydd arall – gael eu hystyried yn gyfleoedd sy'n symbylu ac sy'n creu mannau chwaraegar mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.
Mae casglu diferion glaw, gwylio'r cymylau a gwrando ar y gwynt yn rhuo i gyd yn cynnig pryfociadau cyfoethog i staff chwaraegar yn eu lleoliadau awyr agored,waeth beth fo maint na math y man dan sylw.

Mae'r adegau hyn o ymgysylltu'n ddwfn â'r amgylchedd naturiol yn dangos beth sy'n ennyn chwilfrydedd y plant, a gallant arwain at greu cyfleoedd chwarae a mannau chwaraegar, ymatebol.

Yn y glaw: defnyddio'r glaw fel profiad synhwyraidd – teimlo, gwrando, gwylio.
Yn y gwynt: rhedeg ar ôl dail, rhubanau, neu ddeunyddiau naturiol sy'n cael eu cario gan yr awel.
Yn yr oerfel: creu patrymau yn y llwydrew neu archwilio pyllau sydd wedi rhewi.
Yn yr heulwen: archwilio cysgodion a chreu printiau haul.
.

Newid hinsawdd – defnyddio'r meddwl, y galon a'r dwylo

Gall staff chwaraegar sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r hinsawdd yn rhywbeth gobeithiol ac ymarferol sydd wedi'i wreiddio mewn profiadau pob dydd yn yr awyr agored drwy gysylltiad emosiynol â byd natur. Pan fydd staff yn teimlo'n chwaraegar, yn hyderus ac wedi'u cysylltu â byd natur, byddant yn naturiol yn modelu'r agweddau a'r ymddygiad sy'n hybu dyfodol cynaliadwy. Bydd newid hinsawdd yn ymwneud i raddau llai ag ofn ac yn ymwneud i raddau mwy â gofal, chwilfrydedd a chyfrifoldeb cyffredin.

Croesawu'r cyfan

Mae angen i staff chwaraegar groesawu chwarae anniben fel rhan naturiol o ddysgu yn yr awyr agored ym mhob tywydd. Pan fydd oedolion yn teimlo'n hyderus yn archwilio mwd, glaw, gwynt, a gweadau sy'n newid yng nghwmni plant, byddant yn modelu chwilfrydedd, llawenydd, ac ysbryd antur. Mae chwarae anniben yn troi'n brofiad cyffredin sy'n cryfhau cydberthnasau ac yn dyfnhau cysylltiad plant â byd natur.





Pan fydd staff yn croesawu chwarae anniben ym mhob tywydd, byddant yn dangos i blant bod yr awyr agored yn lle llawn posibiliadau. Byddant yn helpu plant i feithrin gwydnwch, ymwybyddiaeth synhwyraidd, creadigrwydd a chysylltiad dwfn â byd natur. Bydd oedolion chwaraegar yn creu amgylcheddau chwaraegar – a bydd y tywydd yn troi'n bartner yn hytrach nag yn rhwystr wrth ddysgu.

Staff chwaraegar

Meddwl a darllen ymhellach

Mae datblygu hyder o ran chwarae ym myd natur yn siwrnai barhaus. Mae archwilio ymchwil, llyfrau a syniadau newydd yn helpu ymarferwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth, atgyfnerthu eu hymarfer a pharhau i feithrin chwilfrydedd, creadigrwydd a chysylltiad â byd natur.



Ymarfer o safon

Mae ymarfer o safon o ran chwarae ym myd natur yn tyfu drwy fyfyrio, dysgu cyffredin, ac ymgysylltu ag ymchwil. Drwy archwilio gwahanol safbwyntiau ar chwarae, dysgu yn yr awyr agored, a datblygiad plant, gall ymarferwyr gryfhau eu dealltwriaeth o'r rhesymau pam y mae profiadau ym myd natur mor bwerus i blant ifanc.
Mae ystod eang o ymchwilwyr, addysgwyr a sefydliadau wedi cyfrannu i'n dealltwriaeth o chwarae ym myd natur. Mae eu gwaith yn amlygu pwysigrwydd archwilio a arweinir gan blant, mynediad i ddeunyddiau naturiol, a rôl oedolion wrth hybu chwilfrydedd. Pryd bynnag y bo modd, dylech alluogi staff i rannu syniadau, myfyrio am brofiadau, a darganfod dulliau gweithredu newydd sy'n hybu dysgu chwaraegar yn yr awyr agored.
Mae datblygu gwybodaeth dros gyfnod o amser yn helpu lleoliadau i greu timau hyderus sy'n gwerthfawrogi chwilfrydedd, creadigrwydd ac archwilio fel elfennau canolog ymarfer yn y blynyddoedd cynnar.

Mae themâu astudio pwysig yn cynnwys:

- chwarae fel sylfaen i ddysgu cynnar;
- byd natur fel amgylchedd cyfoethog ar gyfer archwilio a darganfod;
- plant yn dysgu drwy brofiadau ymarferol â deunyddiau naturiol;
- rôl oedolion fel tywyswyr a chyd-archwilwyr;
- pwysigrwydd risg, her a gwydnwch wrth chwarae.
- Mae'r syniadau hyn yn ategu llawer o'r dulliau dysgu yn yr awyr agored a ddefnyddir mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar heddiw.

Y manteision

Mae nifer o feddylwyr ym maes addysg wedi dylanwadu ar ymarfer o ran chwarae ym myd natur. Tynnodd Friedrich Froebel sylw at bwysigrwydd chwarae, creadigrwydd a phrofiadau uniongyrchol â byd natur. Mae dull gweithredu Reggio Emilia yn pwysleisio bod yr amgylchedd yn athro pwerus, a'i fod yn annog chwilfrydedd ac archwilio drwy fannau dysgu cyfoethog. Mae ymarfer Ysgolion Coedwig, sydd â'i wreiddiau yn Sgandinafia, yn canolbwyntio ar ddysgu'n rheolaidd mewn amgylcheddau naturiol yn yr awyr agored ac yn cynorthwyo plant i fagu hyder, annibyniaeth a gwydnwch. Gyda'i gilydd, mae'r dulliau gweithredu hyn yn pwysleisio gwerth archwilio a arweinir gan blant a'r rôl ddylanwadol y gall amgylcheddau naturiol ei chwarae mewn datblygiad yn ystod plentyndod cynnar.

Llyfrau, podlediadau ac adnoddau eraill

Gall ymarferwyr sydd â diddordeb mewn datblygu eu gwybodaeth ymhellach ddod o hyd i ysbrydoliaeth drwy lyfrau, podlediadau a rhwydweithiau dysgu proffesiynol. Mae awduron megis:

Richard Louv
Juliet Robertson
Angela Hanscom

yn archwilio pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored a chysylltiad plant â byd natur. At hynny, mae podlediadau sy'n canolbwyntio ar addysg yn ystod plentyndod cynnar ac ar ddysgu yn yr awyr agored yn darparu cyfleoedd i glywed syniadau gan ymchwilwyr ac ymarferwyr.

Diwylliant o chwilfrydedd parhaus

Mae dysgu proffesiynol o ran chwarae ym myd natur ar ei fwyaf pwerus pan fydd yn dod yn rhan ddiwylliant lleoliad. o Pan fydd timau'n rhannu syniadau, yn trafod ymchwil ac yn myfyrio gyda'i gilydd am brofiadau yn yr awyr agored, byddant yn meithrin hyder a chwilfrydedd. Mae'r dysgu o cyffredin hwn yn helpu lleoliadau i greu amgylcheddau lle mae oedolion a phlant yn parhau i archwilio, cwestiynu a darganfod.

Staff chwaraegar

Myfyrio am brofiadau

Mae angen i staff gael cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar fod ym myd natur, a myfyrio am brofiadau a dathlu meddyliau chwaraegar, er mwyn eu hailgysylltu â chwilfrydedd a'r ymdeimlad o syndod a rhyfeddod sy'n sbarduno ymarfer o safon ym maes y blynyddoedd cynnar.



Eich ymarfer

Er mwyn i ymarfer chwaraegar ffynnu, rhaid iddo gael ei ategu gan ddiwylliant y lleoliad cyfan. Pan fydd timau arwain yn rhoi blaenoriaeth i chwilfrydedd, myfyrio a dysgu cyffredin, bydd y staff yn teimlo'n fwy hyderus i ymgysylltu'n chwaraegar â phlant yn yr awyr agored.

Mae creu'r diwylliant hwn yn dechrau drwy gydnabod bod angen i oedolion gael amser a lle i ailgysylltu â'u hymdeimlad eu hunain o chwilfrydedd a rhyfeddod. Mae cyfleoedd i staff oedi, arsylwi a myfyrio am yr hyn y maent yn sylwi arno yn yr awyr agored yn eu helpu i fagu hyder o safbwynt defnyddio byd natur fel cyd-athro. Mae trafodaethau tîm, myfyrdodau cyffredin, a chynllunio cydweithredol i gyd yn cynorthwyo staff i gyfnewid syniadau a dathlu dulliau chwaraegar o weithredu.

At hynny, gall lleoliadau annog ymarfer chwaraegar drwy werthfawrogi arbrofi yn hytrach na pherffeithrwydd. Pan fydd staff yn teimlo eu bod yn cael cymorth i roi cynnig ar syniadau newydd, archwilio'r amgylchedd yn yr awyr agored, a dilyn diddordebau'r plant, bydd rhyngweithio chwaraegar yn dod yn rhan naturiol o ymarfer pob dydd.

Yn y pen draw, mae diwylliant cryf o gael staff chwaraegar yn hybu amgylcheddau dysgu mwy cyfoethog lle caiff archwilio, y dychymyg a darganfod eu gwerthfawrogi gan oedolion a phlant.

"Mae gan blant dri math o athrawon, sef oedolion, plant eraill a'u hamgylchedd ffisegol. Yr amgylchedd yw'r trydydd athro." [Cyfieithiad]"

Sue Palmer, Play is the Way

Modelu ymddygiad oedolion chwaraegar

Mae llawer o oedolion yn teimlo bod angen iddynt addysgu yn hytrach na chwarae, ond mae annog staff i benlinio ar y ddaear, profi sesiynau chwarae i'r staff (oedolion yn unig!), dangos chwilfrydedd, ymuno â'r chwarae, a dilyn syniadau plant yn helpu i newid y meddylfryd hwnnw. Pan fydd oedolion yn cymryd rhan ochr yn ochr â phlant, byddant yn dangos bod archwilio, rhyfeddu, a darganfod ar y cyd yn greiddiol i ddysgu yn yr awyr agored.

Mae creu diwylliant o gael staff chwaraegar yn golygu cydnabod rôl yr amgylchedd o safbwynt ei ddylanwad ar ddysgu.

Magu hyder o ran ymarfer chwaraegar

Mae creu diwylliant o gael staff chwaraegar yn golygu cydnabod rôl yr amgylchedd o safbwynt ei ddylanwad ar ddysgu. Mae llawer o oedolion yn teimlo bod angen iddynt addysgu yn hytrach na chwarae, yn enwedig mewn amgylcheddau addysgol strwythuredig. Gall lleoliadau helpu i newid y meddylfryd hwnnw drwy gynorthwyo staff i brofi chwarae drostynt eu hunain. Bydd sesiynau chwarae i oedolion yn unig, cyfleoedd i archwilio'r awyr agored ar y cyd, a gweithgareddau tîm myfyriol yn galluogi'r staff i ailgysylltu â chwilfrydedd a chreadigrwydd. Mae'r profiadau hyn yn helpu oedolion i ailddarganfod y llawenydd sy'n rhan o archwilio chwaraegar, a datblygu hyder ar yr un pryd i ddefnyddio deunyddiau naturiol ac amgylcheddau awyr agored fel cyfleoedd i ddysgu. Pan fydd staff yn profi manteision chwarae drostynt eu hunain, maent yn fwy tebygol o groesawu dulliau gweithredu chwaraegar gyda phlant.

Ailgysylltu â'r elfen 'pam'

Mae creu diwylliant chwaraegar hefyd yn golygu ailystyried pam y mae chwarae yn yr awyr agored yn bwysig. Pan fydd staff yn deall sut y mae chwarae ym myd natur yn hybu lles, datblygiad corfforol, twf ieithyddol, a rheoleiddio emosiynol, bydd rhyngweithio chwaraegar yn teimlo'n rhywbeth pwrpasol yn hytrach nag yn rhywbeth dewisol. Mae cysylltu profiadau pob dydd yn yr awyr agored â datblygiad plant yn helpu staff i gydnabod y dysgu pwerus sy'n digwydd drwy archwilio. Mae'r ddealltwriaeth gyffredin hon yn magu hyder ar draws y tîm ac yn annog oedolion i werthfawrogi eiliadau o chwilfrydedd, arbrofi a darganfod fel cyfleoedd ystyrlon i ddysgu.

Staff chwaraegar
Y camau Nesaf

Mae rhyngweithio gan staff chwaraegar yn ganolog i brofiadau ystyrlon o chwarae ym myd natur. Pan fydd oedolion yn arsylwi, yn ymateb ac yn ymgysylltu â chwilfrydedd, byddant yn cynorthwyo plant i archwilio syniadau, magu hyder a dyfnhau eu dysgu yn yr awyr agored.



Ymarfer rhyngweithiol a bwriadol

Mewn amgylcheddau chwarae ym myd natur, mae staff yn chwarae rôl bwysig o safbwynt creu awyrgylch cefnogol lle gall chwilfrydedd, archwilio a'r dychymyg ffynnu. Yn hytrach na chyfarwyddo gweithgareddau plant, bydd oedolion yn arsylwi'n ofalus ac yn ymateb yn feddylgar i'r diddordebau sy'n ymddangos yn chwarae'r plant. Gall rhyngweithio chwaraegar gynnwys ymuno am gyfnod byr mewn gêm, gofyn cwestiwn agored, cyflwyno deunydd newydd neu, yn syml iawn,rhannu eiliad o ryfeddu. Gall y camau gweithredu bach hyn ymestyn meddyliau plant, a'u galluogi ar yr un pryd i barhau i reoli eu chwarae.

Mae amgylcheddau cyfoethog o ran byd natur yn gwahodd plant i archwilio'n naturiol. Mae pyllau, brigau, cerrig, dail a mwd i gyd yn cynnig cyfleoedd i blant roi prawf ar syniadau, datrys problemau a chydweithio ag eraill. Pan fydd oedolion yn parhau'n chwaraegar ac yn chwilfrydig eu hunain, byddant yn modelu agwedd gadarnhaol at ddarganfod a dysgu. Drwy werthfawrogi syniadau plant a hybu arbrofi, bydd staff yn helpu i greu amgylcheddau lle mae plant yn teimlo'n hyderus i gymryd risgiau, rhoi cynnig ar bethau newydd a datblygu gwydnwch drwy eu chwarae.

"Mae plant yn dysgu wrth chwarae. Ond yn bwysicach na dim, wrth chwarae mae plant yn dysgu sut mae dysgu." [Cyfieithiad]
Fred Donaldson, Ymchwilydd Chwarae

Gall staff gefnogi hynny drwy sylwi ar ddiddordebau'r plant cyn ymyrryd, cynnig deunyddiau syml sy'n gwahodd chwilfrydedd, gofyn cwestiynau penagored yn hytrach na rhoi cyfarwyddiadau, a chaniatáu amser i'r plant archwilio syniadau'n llawn. Mae'r dulliau gweithredu hyn yn helpu i sicrhau bod chwarae'n dal i gael ei arwain gan y plant, ac yn sicrhau ar yr un pryd bod y dysgu'n cael ei ymestyn.

Arsylwi cyn gweithredu

Arsylwi yw un o'r dulliau mwyaf pwerus y gall oedolion eu defnyddio mewn amgylcheddau chwarae ym myd natur. Drwy wylio'n ofalus, gall staff weld diddordebau'r plant, eu cwestiynau, a'u sgiliau sy'n datblygu. Mae hynny'n helpu oedolion i benderfynu pryd i ymyrryd a phryd i adael i'r chwarae ddatblygu'n naturiol. Pan fydd oedolion yn ymateb i syniadau'r plant yn hytrach na gorfodi eu cynlluniau eu hunain, mae'r dysgu yn troi'n fwy ystyrlon a diddorol.

Modelu chwilfrydedd

Mae oedolion yn atgyfnerthu chwilfrydedd naturiol plant drwy fodelu eu hymdeimlad eu hunain o ryfeddod. Pan fydd staff yn sylwi ar batrymau ar ddeilen, yn gwrando ar sŵn y gwynt yn y coed, neu'n cwestiynu pam y mae pwll wedi rhewi dros nos, maent yn dangos i'r plant bod archwilio a darganfod yn werthfawr. Mae'r chwilfrydedd cyffredin hwn yn annog plant i ofyn cwestiynau, rhoi prawf ar syniadau ac arsylwi'n ofalus. Mae'r profiadau hyn yn helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o fyd natur a'u lle nhw ynddo.





Cysylltiad parhaol

Drwy ryngweithio chwaraegar gydag oedolion cefnogol, mae plant yn creu atgofion melys am yr amser y maent wedi'i dreulio yn yr awyr agored. Mae'r profiadau cynnar hyn yn helpu i feithrin hyder, creadigrwydd ac ymdeimlad o berthyn ym myd natur. Pan fydd plant yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â byd natur drwy chwarae, maent yn fwy tebygol o ofalu amdano a'i werthfawrogi wrth iddynt dyfu.